Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Canllawiau i swyddogion gwysio wrth ystyried ceisiadau gohirio ac esgusodi

Mawrth 2023

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Canllawiau i swyddogion gwysio wrth ystyried ceisiadau gohirio ac esgusodi

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 9AA Deddf Rheithgorau 1974 fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 33, Paragraff 12 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003

Mawrth 2023

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn at Catherine.tempest1@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4008-4

E0288666903/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Canllawiau i swyddogion gwysio wrth ystyried ceisiadau gohirio ac esgusodi** Error! Bookmark not defined.

Disgresiwn y Swyddog Gwysio 4

# Canllawiau i swyddogion gwysio wrth ystyried ceisiadau gohirio ac esgusodi

1. Rhaid ystyried ceisiadau i ohirio[1] neu esgusodi[2] gwasanaeth rheithgor yn ofalus, yn sympathetig ac yn unol ag amgylchiadau unigol yr unigolyn. Mae'n bwysig bod swyddogion gwysio sy'n delio â cheisiadau o'r fath yn mabwysiadu dull sy'n deg i'r unigolyn ac sy’n gyson â gofynion y system farnwrol wrth ddarparu rheithgor ar hap, sy’n amrywiol ac yn gynrychioliadol. Felly ni ddylai swyddogion gwysio oedi rhag gwrthod cais os na roddir "rheswm da".

2. Os rhoddir rheswm da dros pam na all yr unigolyn fynychu ar y dyddiad y mae wedi'i alw, dylid ystyried gohirio bob amser yn y lle cyntaf. Dylid cadw esgusodi rhag gwasanaethu ar reithgor ar gyfer yr achlysuron hynny yn unig lle mae'r swyddog gwysio yn fodlon y byddai'n afresymol gofyn i'r unigolyn wasanaethu ar unrhyw adeg o fewn y deuddeg mis canlynol.

3. Wrth ohirio gwasanaeth rheithgor, rhaid i'r swyddog gwysio nodi dyddiad newydd i’r unigolyn fod yn bresennol, a ddylai fod o fewn deuddeg mis i ddyddiad yr wŷs. Wrth benderfynu ar y dyddiad newydd, dylid osgoi unrhyw adegau a nodwyd gan yr unigolyn fel rhai hynod o anghyfleus lle bynnag y bo modd.

---

1 Mae gohirio gwasanaeth rheithgor yn dod o dan adran 9A Deddf Rheithgorau 1974, sy'n darparu y gall y swyddog gwysio ohirio'r dyddiad y mae'n rhaid i’r rheithiwr fynychu ar gyfer gwasanaeth rheithgor. P'un a yw’r gohiriad yn cael ei ganiatáu neu ei wrthod, gall y swyddog gwysio ond arfer y pŵer unwaith mewn perthynas â gwŷs benodol.

2 Mae cael eich esgusodi rhag gwasanaethu ar reithgor yn dod o dan adran 9(2) Deddf Rheithgorau 1974, sy'n darparu, os oes unrhyw un sydd wedi'i alw i fod yn bresennol fel rheithiwr yn dangos i’r swyddog gwysio bod rheswm da pam y dylid ei esgusodi rhag mynychu, gall y swyddog gwysio ganiatáu hynny.

## Disgresiwn y swyddog gwysio

4. Y disgwyliad yw y bydd pawb sy'n cael eu galw ar gyfer gwasanaeth rheithgor yn gwasanaethu ar yr adeg y maen nhw'n cael eu galw i wneud hynny. Cydnabyddir y bydd achlysuron lle nad yw'n rhesymol i unigolyn sy’n cael ei alw i wasanaethu wneud hynny ar yr adeg y mae wedi ei alw. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r swyddog gwysio arfer disgresiwn i ohirio gwasanaeth yr unigolyn i amser mwy priodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid esgusodi rhywun rhag gwasanaethu ar reithgor mewn perthynas â'r wŷs honno.

Wrth arfer y disgresiwn hwn, dylai swyddogion gwysio ystyried yr egwyddorion canlynol:

5. Mae adran 8(1) Deddf Rheithgorau 1974 ("Deddf 1974") yn darparu y bydd unigolyn sydd wedi cael gwŷs sy'n dangos (er boddhad y swyddog priodol) eu bod eisoes wedi gwasanaethu ar reithgor, neu fynychu'n briodol i wasanaethu ar reithgor, o fewn y ddwy flynedd cyn dyddiad eu gwŷs, yn cael eu hesgusodi o wasanaeth rheithgor. Pan fydd unigolyn yn honni eu bod wedi gwasanaethu o fewn y cyfnod rhagnodedig o ddwy flynedd, dylid derbyn eu datganiad fel arfer, yn amodol ar wirio yn erbyn cofnodion.

6. Fel arfer, dylid caniatáu cais am esgusodi ar sail diffyg dealltwriaeth o'r Saesneg. Os oes amheuaeth, neu os yw'r mater yn codi pan fydd y rheithiwr yn mynychu'r llys, gellir dwyn y rheithiwr gerbron y barnwr fel y rhagnodwyd dan adran 10 Deddf 1974.

7. Wrth ystyried ceisiadau am ohirio neu esgusodi ar sail cyfrifoldebau gofalu, dylai swyddogion gwysio ystyried gohirio yn y lle cyntaf. Gellir ystyried esgusodi rhieni beichiog (nad yw eu plentyn wedi cael ei eni eto neu lle mae disgwyl i blentyn gael ei fabwysiadu ganddynt); rhieni newydd (gyda baban neu blentyn yn iau nag oedran ysgol gorfodol); [3] a mamau sy'n bwydo o'r fron os na allant wneud gwasanaeth rheithgor o fewn y deuddeg mis nesaf oherwydd eu cyfrifoldebau gofal. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

8. Gan amlaf, dylid caniatáu ceisiadau am esgusodi gan aelodau o urddau crefyddol caeedig, aelodau o gymdeithasau ac urddau crefyddol sy’n ymarfer, ac aelodau o sefydliadau seciwlar lle mae eu syniadaeth, neu eu credoau, yn anghydnaws â gwasanaeth rheithgor. Os na ddarperir tystiolaeth ar gyfer y naill sefyllfa neu'r llall, dylid gofyn amdano cyn ystyried y cais am esgusodi ymhellach. Lle mae gwasanaeth rheithgor yn gwrthdaro â gŵyl grefyddol unigolyn, dylid gohirio’r gwasanaeth rheithgor.

[3] Derbyniadau i'r ysgol: Oedran cychwyn ysgol - GOV.UK (www.gov.uk)

9. Dylai’r rhai hynny sy'n gwneud cais i gael eu hesgusodi ar y sail bod y llys y cawsant eu galw iddo yn anodd iddynt gyrraedd gael cynnig i fod yn bresennol mewn llys arall.

10. Dylid gohirio, yn hytrach nag esgusodi gwasanaeth rheithgor unigolion sydd wedi trefnu gwyliau. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

11. Gall rheithwyr posib gael eu hesgusodi am resymau busnes dilys. Fodd bynnag, dylid edrych yn fanwl ar geisiadau o'r math hwn a'u caniatáu dim ond os byddai caledi anarferol os na fyddent yn cael eu hesgusodi. Mae busnes bach lle y gellid dioddef caledi o'r fath, neu weithiwr elusen cyflogedig y gall ei absenoldeb achosi caledi gormodol i'r elusen neu ei fuddiolwyr, yn enghreifftiau o'r fath, er bod rhaid ystyried pob achos ar sail teilyngdod unigol. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

12. Dylid ymdrin â cheisiadau am esgusodi gan weithwyr shifft a gweithwyr nos yn sympathetig. Dylid gohirio gwasanaeth rheithgor gweithiwr shifft i gyfnod lle nad oes rhaid iddynt fynychu ar ddiwrnod gorffwys.

13. Gall achosion o galedi godi o bryd i'w gilydd lle mae myfyriwr, sy'n dibynnu ar gael cyflogaeth yn ystod y gwyliau er mwyn bodloni ymrwymiadau ariannol neu alwedigaethol, yn cael ei alw i wasanaethu ar reithgor cyn derbyn cyflogaeth o'r fath ac wedi hynny y gwrthodir taliad am golli enillion, oherwydd nad oes unrhyw golled gwirioneddol o enillion wedi digwydd. Pan wneir cais am esgusodi neu ohirio gan fyfyriwr ar y sail hwn dylid ei drin yn sympathetig, neu fel arall gall achosi caledi ariannol gwirioneddol.

14. Dylid gohirio ceisiadau am esgusodi gan athrawon neu fyfyrwyr yn ystod y tymor, ac yn enwedig yn ystod cyfnodau arholiadau, yn y lle cyntaf. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

15. Fel arfer dylid gohirio gwasanaeth rheithgor y rhai hynny sy'n gwneud cais am esgusodi ar y sail y byddai gwasanaeth rheithgor yn gwrthdaro â dyletswyddau cyhoeddus pwysig. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

16. Dylid gohirio gwasanaeth rheithgor Aelodau Seneddol sy'n gwneud cais am gael eu hesgusodi ar sail dyletswyddau Seneddol yn y lle cyntaf. Os yw AS yn teimlo y byddai'n amhriodol i wneud gwasanaeth rheithgor yn eu hetholaeth, dylid caniatáu iddynt ei wneud yn rhywle arall. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

17. Dylai gwasanaeth rheithgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a'r dirprwy siaradwyr, oherwydd yr anawsterau y byddai eu habsenoldeb o'r Tŷ yn ei achosi, yn y lle cyntaf gael ei ohirio i gyfnod pan nad yw'r Senedd yn eistedd. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

18. Fel arfer dylid gohirio neu symud gwasanaeth rheithgor aelodau o'r farnwriaeth neu'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder sy'n gwneud cais am esgusodi neu ohirio ar y sail y gallant fod yn hysbys i barti neu bartïon sy'n rhan o'r treial i lys amgen lle na all y seiliau dros ohirio neu esgusodi fod yn berthnasol. Os nad yw hyn yn bosib, yna dylid eu hesgusodi. Mae paragraff 4 uchod yn berthnasol.

    Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i gategorïau penodol o reithgorau posib sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder. Y categorïau hynny yw:

    1. gweithwyr yr awdurdod erlyn;
    2. swyddogion heddlu sydd wedi cael gwŷs i ddod i lys sy’n cael gwaith gan eu gorsaf heddlu neu sy'n debygol o fod â chefndir o’r gwasanaeth lleol a rennir gyda thystion yr heddlu yn y treial;
    3. swyddogion heddlu sydd wedi cael gwŷs i ddod i lys, sy'n cael eu cyflogi mewn carchar sy'n gysylltiedig â'r llys hwnnw neu sy'n debygol o fod â gwybodaeth arbennig am unrhyw un sy'n rhan o dreial.

    Dylid esgusodi rheithwyr posibl sydd yng nghategori (1), (2) neu (3) o wasanaeth rheithgor oni bai bod llys arall neu dreial addas arall y gellir eu trosglwyddo iddo. Er enghraifft, ni ddylai un o weithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) wasanaethu ar dreial sy’n cael ei erlyn gan GEG. Fodd bynnag, gallant wasanaethu ar dreial sy’n cael ei erlyn gan awdurdod erlyn arall, megis Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn yr un modd, gall swyddog heddlu wasanaethu lle nad oes cysylltiad penodol rhwng y llys a'r orsaf lle mae'r swyddog heddlu yn gweithio.

19. Bydd gwasanaeth rheithgor aelodau llawn amser o'r Lluoedd Arfog yn cael ei ohirio neu byddant yn cael eu hesgusodi mewn achosion lle mae eu pennaeth milwrol yn ardystio y byddai eu habsenoldeb yn niweidiol i effeithlonrwydd y gwasanaeth dan sylw (gweler adran 9A(1A) a 9(2A) Deddf 1974).

20. Dylid gohirio ceisiadau am esgusodi ar y sail y bydd gwasanaeth rheithgor yn gwrthdaro ag ymrwymiadau gwaith yn y lle cyntaf, oni bai bod esgusodi yn angenrheidiol. Wrth gwrs, bydd angen ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun. Ni ellir derbyn ceisiadau am esgusodi neu ohirio gan drydydd partïon, e.e. cyflogwyr. Mae paragraff 4 (uchod) yn berthnasol.

21. Dylid ystyried yn sympathetig geisiadau am esgusodi ar sail anabledd corfforol a fyddai'n gwneud gwasanaeth rheithgor yn anodd. Fel arfer, dylid ystyried ceisiadau o'r fath heb yr angen am dystysgrif feddygol. Fodd bynnag, dylid gofyn am dystysgrif os yw'r swyddog gwysio o'r farn bod angen un i gefnogi cais am esgusodi ar sail anabledd corfforol (er enghraifft, lle mae ansicrwydd ynglŷn â'r salwch/anabledd), neu pan fo angen un ar gyfer apêl yn erbyn peidio â chaniatáu esgusodi.

E028886669

978-1-5286-4008-4